

# Achosion Mabwysiadu

## Canolfannau Mabwysiadu Rhyngwladol

### Arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywydd yr Adran Deulu

<b>Cynnwys</b>	
Rhagymadrodd	2
Cychwyn achosion	2
Trosglwyddo achosion i'r Uchel Lys	3
Barnwyr a gymeradwywyd i wrando Achosion Mabwysiadu Rhyngwladol	4
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad A – Canolfannau Mabwysiadu Rhyngwladol Dynodedig	5
Atodiad B – Canolfannau Mabwysiadu	6
Ffynonellau ar wefannau	7

## Rhagymadrodd

1. Yn Ionawr 2008, cyhoeddodd Llywydd yr Adran Deulu arweiniad diwygiedig ar fabwysiadu rhyngwladol o'r enw "Achosion Mabwysiadu – Canolfannau Mabwysiadu Rhyngwladol (A20(1))". Rhestrodd y llysoedd lle mae'n rhaid cychwyn achosion mabwysiadu rhyngwladol a lle mae barnwyr wedi'u cymeradwyo i wrando'r achosion hyn. Roedd yr arweiniad diwygiedig yn adlewyrchu Rheolau Gweithdrefn Deuluol (Mabwysiadu) 2005 a ddaeth i rym ar 30 Rhagfyr 2005 gan weithredu Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (y Ddeddf).
2. Ar 25 Tachwedd 2008 daeth Gorchymyn Dyrannu a Throsoglwyddo Achosion 2008 i rym. Mae'r Gorchymyn newydd yn darparu ar gyfer dyrannu a throsoglwyddo achosion penodol sy'n ymwneud â phlant, gan gynnwys achosion mabwysiadu rhyngwladol.
3. Mae'r arweiniad hwn, a gyhoeddwyd gan Lywydd yr Adran Deulu, yn diweddarar'r arweiniad a gyhoeddwyd yn Ionawr 2008 i adlewyrchu darpariaethau'r Gorchymyn newydd. Rhaid cymhwyso'r arweiniad hwn pryd bynnag y gwneir cais am orchymyn mabwysiadu rhyngwladol, neu mewn cysylltiad â hynny, o 25 Tachwedd 2008. Rhaid ei gymhwyso hefyd, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, i achosion sydd wedi'u cychwyn cyn ond heb eu cwblhau erbyn 25 Tachwedd 2008 (Erthygl 29(1)).

## Cychwyn achosion

4. Mae Gorchymyn Dyrannu a Throsoglwyddo Achosion 2008 yn datgan bod rhaid cychwyn achosion ar gyfer gorchymyn mabwysiadu Confensiwn (sy'n golygu gorchymyn a wneir yn rhinwedd rheoliadau dan adran I o Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999) neu ar gyfer gorchymyn mabwysiadu lle mae adran 83 o'r Ddeddf (cyfyngiad ar ddod â phlant i mewn) yn gymwys mewn llys sirol (Erthygl 6(c) a (d)). Yng ngolwg natur fwy arbenigol achosion mabwysiadu rhyngwladol, mae canolfannau mabwysiadu mewn llysoedd sirol penodol wedi'u dynodi'n 'ganolfannau mabwysiadu rhwngwladol'.
5. Felly, dim ond yn un o'r canolfannau mabwysiadu rhyngwladol (Erthygl 11(2)) sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A y ceir cychwyn achos ar gyfer gorchymyn mabwysiadu Confensiwn neu ar gyfer gorchymyn mabwysiadu o dan adran 83 o'r Ddeddf.

6. Rhaid gwneud unrhyw fath arall o gais mabwysiadu rhyngwladol yn un o'r 'canolfannau mabwysiadu' dynodedig sydd wedi'u rhestru yn Atodiad B. Os yw cais am fabwysiadu rhyngwladol wedi'i restru mewn canolfan mabwysiadu gyffredinol, caiff y ganolfan mabwysiadu drosglwyddo'r achos i ganolfan mabwysiadu rhyngwladol gyfleus dim ond os yw'r ganolfan mabwysiadu'n credu y bydd ei drosglwyddo'n arwain at derfynu'r achos yn gynt o lawer, neu os yw'n fwy cyfleus i'r partion neu i'r plentyn i'r achos gael ei drafod gan ganolfan mabwysiadu rhyngwladol neu os oes rheswm da arall dros drosglwyddo'r achos.

## **Trosglwyddo achosion i'r Uchel Lys**

7. Ceir cychwyn achos yn yr Uchel Lys dim ond os yw'r achos yn eithriadol o gymhleth, os yw canlyniad yr achos yn bwysig i'r cyhoedd yn gyffredinol neu os oes rheswm pwysig arall dros gychwyn yr achos yn yr Uchel Lys. Mae Llywydd yr Adran Deulu wedi rhoi cyfarwyddyd ymarfer sy'n mynnu bod llys yn rhoi sylw i'r ffactorau canlynol wrth ystyried a ddylid gwrandao achos mabwysiadu rhyngwladol yn yr Uchel Lys:

- Ceisir gorchymyn mabwysiadu mewn cysylltiad â phlentyn sydd wedi'i fabwysiadu dramor mewn gwlad nad yw ei gorchmynion mabwysiadu'n cael eu cydnabod yng Nghymru a Lloegr
- Ceisir gorchymyn mabwysiadu mewn cysylltiad â phlentyn y daethpwyd ag ef i'r Deyrnas Unedig mewn amgylchiadau lle mae adran 83 o'r Ddeddf yn gymwys ac:
  - a. nad yw'r sawl sy'n dod â'r plentyn, neu'n peri dod â'r plentyn –
    - i. wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodwyd gan reoliadau a wnaethpwyd o dan adran 83(4); neu
    - ii. wedi bodloni unrhyw amod y mae'n ofynnol ei fodloni yn ôl rheoliadau a wnaethpwyd o dan adran 83(5) o fewn y cyfnod gofynnol: neu
  - b. bod agweddau cymhleth sy'n ymwneud â'r cais

## **Barnwyr a gymeradwywyd i wrando Achosion Mabwysiadu Rhyngwladol**

8. Rhaid rhestru'r holl achosion mabwysiadu rhyngwladol i'w gwrandawro gerbron, ac ni cheir ond eu gwrandawro gerbron Barnwr Uchel Lys, barnwr rhanbarth o Brif Gofrestrfa'r Adran Deulu, Barnwr Cylchdaith, Dirprwy Farnwr Cylchdaith neu Gofiadur sydd wedi'i enwebu ar gyfer achosion mabwysiadu ac sydd wedi'i awdurdodi gan Farnwr Cyswllt yr Adran Deulu i wrando achosion mabwysiadu rhyngwladol. Ceir rhestru gwrandawriadau cyfarwyddo gerbron Barnwr Rhanbarth neu ddirprwy farnwr rhanbarth mewn canolfan mabwysiadu rhyngwladol dan drefniadau a wnaethpwyd gan y Barnwr Cylchdaith lleol sy'n goruchwyllo achosion mabwysiadu, drwy gysylltu â Barnwr Cyswllt yr Adran Deulu.

## **Atodiad A – Canolfannau Mabwysiadu Rhyngwladol Dynodedig**

Mae'r llysoedd canlynol wedi'u dynodi'n Ganolfannau Mabwysiadu Rhyngwladol:

### **Rhanbarth Canolbarth Lloegr**

Llys Sirol Birmingham

Llys Sirol Nottingham

### **Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr**

Llys Sirol Caer

Llys Sirol Lerpwl

Llys Sirol Manceinion

### **Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr**

Llys Sirol Leeds

Llys Sirol Newcastle

### **Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr**

Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu

### **GLIEM Cymru**

Llys Sirol Caerdydd

Llys Sirol Wrecsam

### **Rhanbarth De-orllewin Lloegr**

Llys Sirol Bournemouth

Llys Sirol Bryste

Llys Sirol Caerwysg

Llys Sirol Portsmouth

### **Rhanbarth Llundain**

Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu

## **Atodiad B – Canolfannau Mabwysiadu**

Mae'r llysoedd canlynol wedi'u dynodi'n Ganolfannau Mabwysiadu:

### **Rhanbarth Canolbarth Lloegr**

Llys Sirol Birmingham  
Llys Sirol Coventry  
Llys Sirol Derby  
Llys Sirol Caerlŷr  
Llys Sirol Lincoln  
Llys Sirol Northampton  
Llys Sirol Nottingham  
Llys Sirol Stoke on Trent  
Llys Sirol Telford  
Llys Sirol Wolverhampton  
Llys Sirol Caerwrangon

### **Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr**

Llys Sirol Blackburn  
Llys Sirol Bolton  
Llys Sirol Caerliwelydd  
Llys Sirol Caer  
Llys Sirol Caerhirfryn  
Llys Sirol Lerpwl  
Llys Sirol Macclesfield  
Llys Sirol Manceinion  
Llys Sirol Stockport  
Llys Sirol Warrington

### **Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr**

Llys Sirol Bradford  
Llys Sirol Kingston Upon Hull  
Llys Sirol Leeds  
Llys Sirol Middlesbrough yn Llys Cyfunedig Teeside  
Llys Sirol Newcastle  
Llys Sirol Sheffield  
Llys Sirol Sunderland  
Llys Sirol Caerefrog

### **Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr**

Llys Sirol Brighton  
Llys Sirol Caergrawnt  
Llys Sirol Caergaint  
Llys Sirol Chelmsford  
Llys Sirol Guildford  
Llys Sirol Ipswich  
Llys Sirol Luton  
Llys Sirol Medway  
Llys Sirol Milton Keynes  
Llys Sirol Norwich  
Llys Sirol Rhydychen  
Llys Sirol Peterborough  
Llys Sirol Reading  
Llys Sirol Watford

## **GLIEM Cymru**

Llys Sirol Aberystwyth

Llys Sirol Caerdydd

Llys Sirol Llangefni

Llys Sirol Casnewydd (Gwent)

Llys Sirol Pontypridd

Llys Sirol y Rhyl

Llys Sirol Abertawe

Llys Sirol Wrecsam

## **Rhanbarth De-orllewin Lloegr**

Llys Sirol Bournemouth

Llys Sirol Bryste

Llys Sirol Caerwysg

Llys Sirol Plymouth

Llys Sirol Portsmouth

Llys Sirol Southampton

Llys Sirol Swindon

Llys Sirol Taunton

Llys Sirol Truro

## **Rhanbarth Llundain**

Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu

Llys Sirol Bow

Llys Sirol Brentford

Llys Sirol Bromley

Llys Sirol Croydon

Llys Sirol Romford

## **Ffynonellau ar wefannau**

Gorchymyn Dyrannu a Throsglwyddo  
Achosion 2008

<http://www.opsi.gov.uk/si/si200828>

Cyfarwyddyd Ymarfer – Dyrannu a  
Throsglwyddo Achosion

[http://www.judiciary.gov.uk/docs/judgments\\_guidance/pd/practice-direction-on-allocation-final.pdf](http://www.judiciary.gov.uk/docs/judgments_guidance/pd/practice-direction-on-allocation-final.pdf)

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002:

[www.opsi.gov.uk/acts/acts2002/20020038.htm](http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2002/20020038.htm)

Arweiniad y Llywydd ar Fabwysiadu:  
The New Law and Procedure:

[http://www.judiciary.gov.uk/docs/adoption\\_final.pdf](http://www.judiciary.gov.uk/docs/adoption_final.pdf)

Rheolau Gweithdrefn Deuluol  
(Mabwysiadu) 2005:

[www.justice.gov.uk/family/procrules](http://www.justice.gov.uk/family/procrules)